| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 02/10/19 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 18/10/19 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Gwasanaethau Isadeiledd |
| **Maes Gweithio:** | Trafnidiaeth Integredig |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 866507<br>CysylltiadauTeithio@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Teithio Rhatach |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio eich gwybodaeth fel defnyddiwr cerdyn teithio rhatach. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Diben y gwaith prosesu**

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am ddarparu cardiau teithio rhatach i unigolion sy'n gymwys i'w derbyn.

Bydd Trafnidiaeth Cymru, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac sy'n gyfrifol am faterion trafnidiaeth yng Nghymru, hefyd yn gweinyddu cardiau teithio rhatach ar sail Cymru gyfan. Am ragor o wybodaeth am sut bydd Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth, dilynwch y ddolen hon i'w Ddatganiad Preifatrwydd.

https://tfw.gov.wales/cy/datganiad-preifatrwydd-cerdyn-teithio

Pan ddefnyddiwch eich cerdyn teithio rhatach ar fws, bydd gweithredwr y bws yn casglu manylion cardiau, a fydd yn cael eu rhannu gyda ni a Trafnidiaeth Cymru, er mwyn galluogi i weithredwr y bws gael ei dalu am eich taith trwy ddarllenydd cerdyn awtomatig.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod:

Erthygl 6 1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau penodol o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:

Deddf Diogelu Data 2018 - Atodlen 1 / Rhan 2

6 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r prosesu —
(a) yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), ac
(b) yn angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol y cyhoedd.
(2) Y dibenion hynny yw—
(a) ymarfer swyddogaeth a roddwyd i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;
(b) ymarfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Pwy yw'r Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol / Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth.

**Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Trafnidiaeth Integredig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Bydd Trafnidiaeth Cymru, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac sy'n gyfrifol am faterion trafnidiaeth yng Nghymru, hefyd yn gweinyddu cardiau teithio rhatach ar sail Cymru gyfan. Am ragor o wybodaeth am sut bydd Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth, dilynwch y ddolen hon i'w Ddatganiad Preifatrwydd.

https://tfw.gov.wales/cy/datganiad-preifatrwydd-cerdyn-teithio

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, at ddiben gwirio'r wybodaeth anabledd rydych chi'n ei darparu ar eich ffurflen gais.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Gellir rhannu gwybodaeth ystadegol lle na ellir adnabod unigolion â Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi cyllid i'r cynllun teithio rhatach.

Pan ddefnyddiwch eich cerdyn teithio rhatach ar fws, bydd gweithredwr y bws yn casglu manylion cardiau, a fydd yn cael eu rhannu gyda ni a Trafnidiaeth Cymru, er mwyn galluogi i weithredwr y bws gael ei dalu am eich taith trwy ddarllenydd cerdyn awtomatig.

Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth ag awdurdodau trafnidiaeth lleol eraill (sydd hefyd yn weithredwyr statudol y cynllun teithio rhatach) pe byddech chi'n symud i ardal awdurdod lleol arall.

Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth a chysylltu â'ch darparwr Gwasanaeth Iechyd (e.e. meddyg teulu, meddyg ymgynghorol) at ddiben gwirio'r wybodaeth anabledd rydych chi'n ei darparu ar eich ffurflen gais.

**Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol**

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cyflogi proseswyr data, sy'n darparu gwasanaeth i gwsmeriaid, TG, gwirio hunaniaeth a gwasanaethau gweinyddu systemau.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Byddwn ond yn cadw'ch data personol cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r dibenion dros ei gasglu, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

Oherwydd natur y gwasanaeth a ddarperir, byddwn yn cadw'ch gwybodaeth nes na fydd angen y gwasanaeth hwn arnoch mwyach.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- yr hawl i'r unigolyn gael mynediad at ddata - Mae ffurflenni hawliad ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am ddarparu cardiau teithio rhatach i unigolion sy'n gymwys i'w derbyn. Bydd Trafnidiaeth Cymru, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac sy'n gyfrifol am faterion trafnidiaeth yng Nghymru, hefyd yn gweinyddu cardiau teithio rhatach ar sail Cymru gyfan. Am ragor o wybodaeth am sut bydd Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth, dilynwch y ddolen hon i'w Ddatganiad Preifatrwydd.

https://tfw.gov.wales/cy/datganiad-preifatrwydd-cerdyn-teithio

Tasg gyhoeddus yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch gwybodaeth ac oherwydd natur y gwasanaeth a ddarperir, byddwn yn cadw'ch gwybodaeth nes na fydd angen y gwasanaeth hwn arnoch mwyach. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth ag awdurdodau trafnidiaeth lleol eraill (sydd hefyd yn weithredwyr statudol y cynllun teithio rhatach) pe byddech chi'n symud i ardal awdurdod lleol arall. Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu ag eraill fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a'ch darparwr Gwasanaeth iechyd er mwyn gwirio'r wybodaeth anabledd rydych chi'n ei darparu ar eich ffurflen gais.

Pan ddefnyddiwch eich cerdyn teithio rhatach ar fws, bydd gweithredwr y bws yn casglu manylion cardiau, a fydd yn cael eu rhannu gyda ni a Trafnidiaeth Cymru, er mwyn galluogi i weithredwr y bws gael ei dalu am eich taith trwy ddarllenydd cerdyn awtomatig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}